

# Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg


Mae'r adroddiad hwn yn edrych i weld a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod bod ei wasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da.



Adolygiad ar y Cyd gan  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**



Fersiwn Hawdd ei Darllen



Mae rhestr **Geiriau ac Ymadroddion Anodd** ar y diwedd.

Mae'n rhaid i bobl gael **asesiad ariannol** os ydyn nhw eiddoedd ariannol. Gwasanaethau Cymdeithasol. Os ydych chi'n gwrthod gael **asesiad ariannol**, mae'n rhaid iddyn nhw dalu am wasanaethau.

Gallwch gael gwybod ystyr y geiriau mewn **print tywyll**.



## Cyflwyniad a Chefndir



Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ei ffurfio yn 2009.



Ar 1 Ebrill 2019, newidiodd yr enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.



Roedd hyn oherwydd bod y bwrdd bellach yn gyfrifol am ofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.



Mae hyn yn cynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru.



Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr adroddiad gofidus iawn.



Roedd yr adroddiad hwn yn sôn am **wasanaethau mamolaeth** yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt.



Roedd yn nodi rhai pryderon difrifol am y gwasanaeth.



Roedd llawer o fenywod wedi cael profiadau annerbyniol.



Oherwydd yr adroddiad hwnnw, daeth gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn destun **Mesurau Arbennig**.



Roedd hyn yn golygu y byddai'n rhaid iddyn nhw newid eu ffordd o weithio er mwyn gwella'r gwasanaethau hyn.



Roedd pryderon eraill hefyd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.



Cafodd rhai ohonyn nhw eu nodi pan edrychodd Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar y gwasanaethau.



Oherwydd yr holl bethau hyn gyda'i gilydd, edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar **drefniadau llywodraethu ansawdd** y Bwrdd Iechyd ar frys



## Yr Adolygiad hwn



Nod yr adolygiad hwn oedd edrych i weld a yw trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cefnogi gwasanaethau sydd:



- O ansawdd uchel



- Yn ddiogel



- Yn effeithiol



Gwnaethom ni edrych ar y ffordd roedd y Bwrdd Iechyd yn cael ei redeg. Gwnaethom ni edrych hefyd ar Ysbyty Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Beth a wnaethom ni:



- Gwnaethom ni siarad â llawer o staff a gwnaethom ni ofyn iddyn nhw ddweud wrthyn ni am eu gwaith



- Gwnaethom ni siarad â'r staff sy'n gweithio yn yr adran llawdriniaeth a'r adran achosion brys



- Gwnaethom ni edrych ar beth oedd yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd allweddol



- Gwnaethom ni ddarllen llawer o waith papur am ansawdd gwasanaethau



- Gwnaethom ni ofyn i'r staff sy'n gweithio yn yr adran llawdriniaeth, yn y theatrau ac yn yr adran achosion brys lenwi arolwg



Mae beth a nodwyd gan yr adroddiad wedi cael ei rannu i'r grwpiau hyn:



- Ffocws ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg



- Arweinyddiaeth, **craftu sefydliadol** a chynlluniau gwasanaeth ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion



- Nodi a rheoli **risg**



- Sut mae pryderon yn cael eu codi a beth sy'n cael ei wneud amdany'n nhw



- **Diwylliant sefydliadol** a dysgu





## Dyma'r prif bethau y gwnaethom ni eu nodi



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn dda am wneud gwaith sy'n gysylltiedig ag arian a chyrraedd targedau.



Nid oes cymaint o ffocws wedi bod ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.



Gwelson ni nad oedd llawer o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n iawn.



Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn dda am wybod am ansawdd ei wasanaethau.



Mae hyn yn golygu efallai nad yw'n delio â phroblemau yn iawn.



Mae angen gwelliannau brys er mwyn datrys y problemau hyn.



Mae hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n haws trafod ansawdd a diogelwch gofal cleifion yn agored.



Mae angen cryfhau **arweinyddiaeth** gan nodi rolau clir i bawb o ran ansawdd.



Mae angen rolau cliriach ar y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Clinigol o ran ansawdd gwasanaethau.



Mae gan y Bwrdd Iechyd bwyllgor sy'n edrych ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ond nid oedd hyn bob amser yn gweithio'n dda.



Mae hyn oherwydd nad oedd bob amser yn cael y wybodaeth gywir ac weithiau nad oedd y wybodaeth roedd yn ei chael yn glir.



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o ofyn i gleifion beth maen nhw'n ei feddwl am eu gofal a defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i wella gwasanaethau.



Mae angen mwy o amser ar staff a rheolwyr i ganolbwyntio ar faterion ansawdd a diogelwch cleifion.



Mae gwendidau wedi bodoli ers amser hir o ran rheoli risg. Mae angen i hyn newid yn gyflym.



Nododd fîm yr adolygiad fod rhai aelodau o'r staff yn gweithio mewn **amodau risg uchel**.

Roedd hyn wedi dod yn normal ac mae angen iddo newid.



Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.



Mae angen rhoi mwy o gyfrifoldeb a phŵer i bob aelod o'r staff ymateb i bryderon a chwynion.



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r ffordd mae'n rhannu'r gwersi sy'n cael eu dysgu drwy'r sefydliad cyfan, gan gynnwys y gwersi sy'n cael eu dysgu o bryderon ac adroddiadau allanol.



Dangosodd yr adolygiad hefyd nad oedd rhai o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu dweud os oeddent yn poeni am rywbeth yn y gwaith.



Mae angen llunio strwythurau cliriach o ran sut mae staff ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn edrych ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.



Dylai ffordd newydd o weithio, sef "Y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad", helpu i wella hyn.



Er bod llawer o broblemau gyda gwahanol bethau, mae rhai newidiadau da yn digwydd a fydd yn helpu.



Mae arweinwyr newydd yn y Bwrdd lechyd ac maen nhw'n dechrau gwneud y newidiadau sydd eu hangen.



Mae mwy o staff ar gael er mwyn sicrhau bod y gwaith iawn yn cael ei wneud a bod newidiadau yn digwydd yn gyflymach.



Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio'n galed ar lawer o'r materion yn yr adroddiad hwn.



Ond bydd hyn yn her fawr a bydd angen gweithio'n galed er mwyn datrys y problemau.

Mae'n rhaid i bobl gael **asesiad** **ariannol** os ydyn nhw ei rhoi i'r Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol. Os ydyn nhw'n gwrthod cael **asesiad ariannol**, mae'n rhaid iddyn nhw dalu am wasanaethau.

## Geiriau ac Ymadroddion Anodd



### Mesurau Arbennig

Help ychwanegol sy'n cael ei roi i'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwella gwasanaethau a'r ffordd mae'n cael ei redeg.



### Cwynion

Pan fydd rhywun yn dweud wrthy ch chi ei fod yn meddwl bod rhywbeth yn anghywir.



### Risg

Y siawns y bydd pethau'n mynd yn anghywir wrth roi gofal i glaf.



### Gwasanaethau Mamolaeth

Y gofal y mae rhywun yn ei gael os yw'n cael babi.



## **Gwasanaethau Lawfeddygol**

Y gofal y mae rhywun yn ei gael os yw'n cael llawdriniaeth.



## **Pryderon**

Y gofidiau y mae pobl yn eu codi gyda'r Bwrdd lechyd pan fyddant yn anhapus â'u gofal.

Adegau pan fydd pethau'n mynd yn anghywir wrth roi gofal i bobl.



## **Trefniadau Llywodraethu Ansawdd**

Safon uchel o reoli.



## **Craffu Sefydliadol**

Edrych yn ofalus ar y gwaith y mae pobl yn ei wneud mewn swydd.



## **Diwylliant Sefydliadol**

Sut mae pobl yn ymddwyn fel arfer mewn swydd.





## Arweinyddiaeth

Pan fydd rhywun yn gyfrifol am rywbeth ac yn arwain drwy esiampl.



## Cyson

Yn aros yr un peth.



## Amodau Risg Uchel

Pan fydd rhywun o gwmpas rywbeth a allai fod yn beryglus neu ei frifo.



## Digwyddiad

Rhywbeth sydd wedi digwydd a allai fod yn bwysig.



Cafodd y daflen hawdd ei darllen hon ei chynhyrchu gan Planet Easy Read

Rydym yn defnyddio Ffotosymbolau